Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllaw Cyflym Cyfraddau Treth Incwm Cymru

Tachwedd 2026

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG55574, ISBN digidol 978-1-80853-744-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Cyflwyniad

Beth yw e?

1. Mae'r canllaw cyflym ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) yn set o amcangyfrifon ar gyfer yr effaith ar refeniw wrth wneud newid o 1c (neu un pwynt canran) i bob un o gyfraddau Cymru (sylfaenol, uwch ac ychwanegol).

2. O fis Ebrill 2027 ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru yn gallu amrywio CTIC ar wahân ar gyfer incwm nad yw'n eiddo ac incwm eiddo. Mae'r canllaw cyflym yn dangos effaith amrywio pob un o'r cyfraddau hyn.

3. Mae'r canllaw cyflym yn dangos effaith newidiadau i gyfraddau Cymru ar refeniw treth incwm sydd wedi'i ddatganoli i Gymru ac sy'n cyfrannu at gyllideb Llywodraeth Cymru. Nid yw'n cynnwys unrhyw effaith ar refeniw treth Llywodraeth y DU nac effeithiau ehangach ar yr economi ac ar drethi datganoledig neu leol eraill yng Nghymru.

4. Mae'r canllaw cyflym yn cynnwys amcangyfrifon ar gyfer yr holl effeithiau disgwyliedig ar ymddygiad a allai gael effaith sylweddol ar refeniw. Mae'r rhain yn cynnwys yr effaith bosibl ar benderfyniadau ynghylch a ddylid gweithio ai peidio, faint y dylid gweithio, a ddylid corffori (fel bod unigolion yn talu trethi incwm sy'n gysylltiedig â busnes), a mudo.

5. Mae'r canllaw cyflym yn defnyddio'r rhagolygon diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ym mis Hydref 2026.

Pwy sy'n ei gynhyrchu?

6. Mae canllaw cyflym CTIC yn cael ei gynhyrchu gan CThEF a Llywodraeth Cymru. Mae'r dull gweithredu hwn yn manteisio ar brofiad CThEF wrth greu costiadau ar gyfer newidiadau i bolisïau treth incwm y DU a'r Alban ar ran Trysorlys EF ar gyfer digwyddiadau cyllidol y DU, a rhagolygon cyllidol yr OBR. Mae CThEF hefyd yn gallu cael gafael ar ddata manwl am dreth sy'n ddefnyddiol wrth greu'r amcangyfrifon hyn, ac nid yw'r data hwn ar gael i eraill am resymau cyfrinachedd.

7. Ymgynghorir â'r OBR wrth gynhyrchu canllaw cyflym CTIC. Mae'r OBR yn darparu rhagolygon treth annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru, a rhagolygon yr OBR yw sail y canllaw cyflym. Os bydd polisi'n cael ei newid yng nghyswllt CTIC, gofynnir i'r OBR graffu ar y costiad cysylltiedig a fyddai'n cael ei ddefnyddio yng nghyllideb Llywodraeth Cymru, a chymeradwyo'r costiad hwnnw. O dan y ddeddfwriaeth a sefydlodd yr OBR, ni all ardystio costiadau polisi ond ar gyfer polisi sydd wedi'i ddatgan gan y Llywodraeth. Ei rôl mewn perthynas â'r canllaw cyflym yw adolygu'r dulliau a ddefnyddir. Mae wedi barnu bod y dulliau hyn yn rhesymol, gan ddefnyddio modelau a dulliau sefydledig lle bynnag y bo modd.

8. Mae'r OBR wedi tynnu sylw at yr hyn sydd, yn ei barn hi, yn brif ffynonellau ansicrwydd, a allai olygu bod cost wirioneddol polisi yn wahanol i'r canllaw cyflym. Er enghraifft, mae wedi nodi ansicrwydd ymddygiadol mewn perthynas â

mudo trawsffiniol, yn enwedig ymhlith trethdalwyr y gyfradd ychwanegol. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael i seilio amcangyfrifon arni ar gyfer yr effeithiau ymddygiadol hyn yn gyfyngedig.

Amcangyfrifon

9. Mae'r tablau isod yn dangos y rhagolygon refeniw ar sail y cyfraddau treth presennol, ac amcangyfrifon y canllaw cyflym.

Tabl 1: Amcangyfrifon y canllaw cyflym ar gyfer prif Gyfraddau Treth Incwm Cymru (£ miliwn)

		2027-28	2028-29
Cyfradd Safonol	Cyfraddau cyfredol	3,278	3,392
	+1c	325	337
	-1c	-326	-337
Cyfradd Uwch	Cyfraddau cyfredol	572	604
	+1c	54	57
	-1c	-54	-57
Cyfradd Ychwanegol	Cyfraddau cyfredol	149	159
	+1c	10	11
	-1c	-11	-12

Tabl 2: Amcangyfrifon y canllaw cyflym ar gyfer cyfraddau eiddo Cyfraddau Treth Incwm Cymru (£ miliwn)

		2027-28	2028-29
Cyfradd Safonol	Cyfraddau cyfredol	54	55
	+1c	5	5
	-1c	-5	-5
Cyfradd Uwch	Cyfraddau cyfredol	22	23
	+1c	2	2
	-1c	-2	-2
Cyfradd Ychwanegol	Cyfraddau cyfredol	6	6
	+1c	1	1
	-1c	-1	-1

Amcangyfrifon yn seiliedig ar Ragolygon Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (Hydref 2026)

10. Mae effaith newid y cyfraddau ar incwm eiddo yn fwy ar gyfer y gyfradd uwch a'r gyfradd ychwanegol mewn perthynas â'r gyfradd sylfaenol nag ar gyfer newidiadau cyfatebol i gyfraddau incwm nad yw'n eiddo. Mae hyn yn adlewyrchu dosbarthiad incwm eiddo ar draws y bandiau treth a'r ffaith bod incwm eiddo yn cael ei gymryd ar ôl incwm arall nad yw'n deillio o gynilion na difidendau yn y cyfrifiad treth.

Sut mae'r amcangyfrifon yn cael eu creu?

11. Mae dau gam i'r amcangyfrifon. Yn gyntaf, amcangyfrifir y costau statig yn sgil newid y cyfraddau (nid yw'r rhain yn cynnwys ymatebion ymddygiadol). Mae'r amcangyfrifon statig yn seiliedig ar Ragolwg Economaidd ac Ariannol yr OBR o fis Hydref 2026 ymlaen. Gan mai 10c yw'r cyfraddau a ddefnyddir ar gyfer CTIC yn y rhagolygon hyn, mae cost statig sydd 1c yn fwy neu'n llai yn cyfateb i ddim ond 10% o ragolwg CTIC ar gyfer y band penodol.

12. Mae'r ail gam yn cynnwys yr effeithiau ymddygiadol a ddisgwylir. Mae newid cyfraddau treth yn debygol o effeithio ar ymddygiad pobl, ac fe allai hynny yn ei dro effeithio ar faint o dreth sy'n cael ei chynhyrchu yn nes ymlaen. Mae'r ymddygiadau hyn yn cynnwys penderfyniadau ynghylch a ddylid gweithio ai peidio, faint y dylid gweithio ac i ba raddau y mae unigolion yn mynd ati i osgoi trethi a chynllunio ar gyfer trethi. Mae maint yr effeithiau hyn yn dibynnu ar incwm y trethdalwr, felly rhagdybir y bydd ymateb rhywun sydd ag incwm uwch yn fwy, yn gymharol, nag ymateb rhywun sydd ag incwm is. Ac eithrio mudo, mae'r effeithiau ar ymddygiad yn cael eu hamcangyfrif drwy ddefnyddio'r rhagdybiaethau y mae CThEF a'r OBR yn eu defnyddio wrth gostio newidiadau i dreth incwm y DU. Gelwir y rhain yn elastigeddau incwm trethadwy.

13. Mae'r canllaw cyflym hefyd yn cynnwys effaith newidiadau mewn cyfraddau ar gorffori am resymau treth. Mae newidiadau i gyfraddau treth incwm yn effeithio ar y gwahaniaeth rhwng cyfraddau treth incwm difidend/treth gorfforaeth, ac felly'n newid y rhesymau sydd gan unigolion i fynd ati i gorffori. Bydd newidiadau i ymddygiad corffori yn effeithio ar refeniw treth incwm. Mae CThEF yn modelu'r cymhelliant i gorffori ar sail trethi'r DU nad ydynt wedi'u datganoli a threth incwm ddi-ddifidend nad yw'n gynilion i ddarparu amcangyfrif o gorffori am resymau treth sy'n adlewyrchu'r poblogaethau o unigolion a chwmnïau yng Nghymru.

14. Yn ogystal â'r uchod, mae'r canllaw cyflym yn cynnwys amcangyfrif o effeithiau ar ymddygiad mudo. Disgwylir y bydd gwahaniaethau mewn cyfraddau treth incwm rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU yn arwain at rywfaint o fudo trawsffiniol. Dim ond ar gyfer newidiadau yn y gyfradd ychwanegol y mae'r amcangyfrifon yn cael eu cymhwyso. Mae effaith absoliwt newidiadau i'r cyfraddau sylfaenol neu uwch yn fwy cyfyngedig nag effaith newidiadau i'r gyfradd ychwanegol, yn enwedig ar y rhai sydd ar incwm uchel iawn. Mae corff o lenyddiaeth empirig hefyd, sy'n dangos mai'r rhai sydd ar yr incwm uchaf sydd fwyaf tebygol o fudo o ganlyniad i newidiadau i dreth incwm[1].

[1] I gael crynodeb, gweler yr Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2018, Llywodraeth Cymru (2018) o dudalen 57 ymlaen, sydd ar gael yma; https://www.llyw.cymru/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2018

15. Mae'r amcangyfrif o'r effaith ar fudo yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys maint y newid yn y dreth, incwm trethdalwyr, llifau mudo presennol rhwng lleoliadau a maint yr ymateb ymddygiadol neu'r elastigedd. Mae'r rhai sy'n ennill incwm uwch yn gallu lleihau eu hatebolrwyddau treth yn fwy drwy fudo i Gymru neu oddi yno, yn dibynnu ar y newid yn y dreth. Felly po uchaf yw'r incwm, mwyaf tebygol yn y byd ydyw y bydd trethdalwr yn mudo mewn ymateb i newid yn y dreth. Mae'n bosibl hefyd y bydd y rhai sydd â mwy nag un man preswylio yn gallu newid eu prif fan preswylio at ddibenion treth, heb i hynny amharu fawr ddim ar eu ffordd o fyw.

16. Ym mis Mawrth 2026, cyhoeddodd CThEF bapur ymchwil wedi'i ddiweddaru yn manylu ar fudiad unigolion o fewn y DU[2]. Mae hyn yn seiliedig ar set ddata hydredol sy'n cwmpasu incwm a lleoliad trethdalwyr y DU dros gyfnod o 12 mlynedd. Mae'r fethodoleg yn defnyddio'r ffynhonnell ddata hon. Mae'r amcangyfrif o'r llif mudo presennol yn seiliedig ar y nifer cyfartalog o'r trethdalwyr cyfradd ychwanegol sydd wedi symud i mewn i Gymru ac allan ohoni dros y blynyddoedd diwethaf.

17. Mae maint yr ymateb ymddygiadol, neu'r elastigedd, yn dangos i ba raddau y disgwylir i'r llifau mudo presennol newid yn sgil newid yn y dreth. Daw hyn o'r llenyddiaeth empirig. Daw'r amcangyfrif o astudiaeth yn y Swistir [3] sy'n adrodd canfyddiadau ynghylch y newidiadau i lifau mudo oherwydd newidiadau i dreth incwm. Mae'r astudiaeth hon yn seiliedig ar ddata treth incwm, felly bydd yn cynnwys y rhai sydd â mwy nag un man preswylio, ac sy'n newid eu prif fan preswylio at ddibenion treth. Er hynny, mae'n bosibl bod hwylustod newid o'r fath, neu fudo ar bapur, yn y DU yn wahanol i'r Swistir. Cyhoeddodd CThEF bapur ymchwil ochr yn ochr â'r papur hydredol ym mis Ebrill 2024[4] a ddadansoddodd effaith newidiadau i Dreth Incwm yr Alban 2018-19 ar fudo o fewn y DU. Mae canlyniadau'r papur hwn yn cyd-fynd yn fras â'r llenyddiaeth academaidd ar ymatebion ymddygiadol i newidiadau i dreth incwm. Mae Llywodraeth Cymru a CThEF wedi adolygu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn y canllaw cyflym yn sgil canfyddiadau'r papur ymchwil hwnnw. Penderfynwyd bod y dull presennol yn briodol o ran Cymru gan ei fod yn defnyddio ffactorau mudo sy'n benodol i Gymru.

Cyfyngiadau ac elfennau o ansicrwydd

18. Mae'r amcangyfrifon yn dangos yr effaith ddisgwyliedig ar refeniw wrth gynyddu neu leihau 1c (neu un pwynt canran) ar bob un o Gyfraddau Treth Incwm Cymru yn annibynnol ar ei gilydd. Oherwydd y ffordd y mae treth incwm wedi cael ei datganoli i Lywodraeth Cymru, gellir newid cyfraddau gwahanol ar yr un pryd, ac efallai i wahanol gyfeiriadau ac i wahanol raddau. Er enghraifft, gellid cyfuno gostyngiad o 1c yn y gyfradd sylfaenol â chynnydd o 2c yn y gyfradd ychwanegol. Nid oes amcangyfrifon ar wahân wedi cael eu cynhyrchu o'r effaith ar refeniw

[2] Mudo o fewn y DU ymhlith trethdalwyr - GOV.UK

[3] Martínez, I Z (2022), "Mobility responses to the establishment of a residential tax haven: Evidence from Switzerland", *Journal of Urban Economics* 129(103441)

[4] Impacts of 2018 to 2019 Scottish Income Tax changes on intra-UK migration and labour market participation - GOV.UK

wrth gyflwyno gwahanol gyfuniadau o newidiadau i gyfraddau. Gellir cyfuno newidiadau ar draws bandiau, a'u graddio i fyny neu i lawr er mwyn rhoi syniad o'r effeithiau posibl wrth wneud newidiadau mwy i'r cyfraddau. Er enghraifft, mae gostyngiad o 2c mewn cyfradd dreth yn debygol o gostio tua dwywaith gymaint â gostyngiad o 1c. Mae'r brasamcan hwn yn rhesymol ar gyfer newidiadau o hyd at ychydig o bwyntiau canran i'r naill gyfeiriad neu'r llall.

19. Mae'r canllaw cyflym yn defnyddio polisi presennol a pholisi datganedig y DU yn y dyfodol o gyfraddau a bandiau treth incwm y DU. Mae'n rhagdybio, felly, na fydd y rhain yn newid yn y blynyddoedd sy'n gymwys ar gyfer y canllaw cyflym. Mae lwfans personol y DU, y trothwy cyfradd uwch a'r trothwy cyfradd ychwanegol (ar ei lefel is newydd) i gyd wedi'u rhewi dros y blynyddoedd a gwmpesir gan y canllaw cyflym.

20. Fel y nodwyd, mae'r amcangyfrifon a ddarperir yma yn gyson â Rhagolygon Economaidd a Chyllidol yr OBR a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2026. Bydd yr amcangyfrifon yn newid yn sgil rhagolygon yr OBR yn y dyfodol.

21. Yn ogystal, ac yn gyffredin â'r rhan fwyaf o gostiadau polisïau treth eraill, bernir bod yr effeithiau ymddygiadol a gynhwysir yn yr amcangyfrifon hyn yn ansicr iawn. Lle bo modd, mae amcangyfrifon sefydledig wedi cael eu defnyddio. Pan fydd dulliau newydd wedi cael eu defnyddio, fel gyda mudo o fewn y DU, defnyddiwyd y dystiolaeth a'r wybodaeth orau a oedd ar gael. Er hynny, mae'r sylfaen dystiolaeth yn gyfyngedig, ac mae ei pherthnasedd i amgylchiadau Cymru yn ansicr.

22. Mae effaith newid y cyfraddau ar incwm eiddo yn defnyddio effeithiau ymddygiadol penodol a ddefnyddir hefyd yn amcangyfrifon ehangach y DU o ran incwm eiddo.

23. Mae'r canllaw cyflym yn rhoi costiad cadarn o newidiadau posibl i CTIC, ar sail yr wybodaeth bresennol. Er hynny, o gofio'r risgiau a'r cyfyngiadau sydd wedi'u hamlinellu uchod, mae'n bosibl y bydd costiad unrhyw newidiadau i CTIC a gymhwysir i gyllidebau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn wahanol i'r amcangyfrifon yn y ddogfen hon. Ni chymerir i ystyriaeth unrhyw effeithiau effaith achub y blaen posibl, a allai effeithio ar broffil refeniw yn y tymor byr. Er hynny, mae incwm di-ddifidend nad yw'n gynilion yn ddarostyngedig i lai o reolaeth gan y trethdalwr na mathau eraill o incwm. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach dwyn enillion ymlaen neu ohirio enillion.

24. Mae'r amcangyfrifon yn cynnwys effeithiau ar ymddygiad, fel yr amlinellir ym mharagraff 4. Am y ddwy flynedd yn y tabl, mae'r amcangyfrifon yn cyfleu effaith newid cyfradd ym mlwyddyn un. Mae rhai ymddygiadau trethdalwyr mewn ymateb i newidiadau mewn cyfraddau (megis p'un ai i gorffori) yn debygol o gymryd amser i effeithio ar dderbyniadau CTIC ac ni fyddant yn cael eu gweld yn y flwyddyn gyntaf. Yn y blynyddoedd ar ôl cyflwyno newid mewn cyfradd, amcangyfrifir y bydd cynnyrch neu gost blwyddyn un ym mhob band yn gostwng, o ganlyniad i ymddygiadau fel corfforiadau am resymau treth.

Pa ganllawiau cyflym eraill sydd eisoes yn bodoli?

25. Mae'r canllaw cyflym hwn ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn ychwanegu at y set bresennol o ganllawiau cyflym ar gyfer newidiadau treth Llywodraeth y DU a gynhyrchir gan CThEF.

26. Mae canllawiau cyflym diweddaraf CThEF yn darparu amcangyfrifon o'r effeithiau ar refeniw wrth wneud newidiadau enghreifftiol i drethi Llywodraeth y DU rhwng 2027-28 a 2029-30, gan gynnwys pob un o gyfraddau treth incwm Llywodraeth y DU. Mae'r rhain ar gael yma: Direct effects of illustrative tax changes - GOV.UK

27. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd yn cynhyrchu canllaw cyflym ar gyfer Treth Incwm yr Alban. Mae ei fersiwn ddiweddaraf yn dangos effaith refeniw amcangyfrifedig newidiadau enghreifftiol i Dreth Incwm yr Alban yn 2026-27 a gellir dod o hyd iddi yma:
Supporting documents - Scottish Budget 2026 to 2027: Scottish tax ready reckoners - gov.scot

Y camau nesaf

28. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyhoeddi diweddariadau o'r canllaw cyflym er mwyn cadw'r amcangyfrifon yn berthnasol. Yn y cyfamser bydd yn parhau i weithio gyda CThEF, yr OBR, Llywodraeth yr Alban a Chomisiwn Cyllidol yr Alban i sicrhau dull cydweithredol o gael rhagor o wybodaeth am dreth incwm y DU, yn enwedig yr elfennau sy'n ymwneud â'r ffrydiau refeniw datganoledig. Y gobaith yw y bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i ddeall y sylfaen drethu a'i deinameg yn well, a allai – yn ei dro – wella'r amcangyfrifon yn y canllaw cyflym a'r rhagolygon a'r costiadau posibl ar gyfer polisi CTIC yn y dyfodol. Bydd y dyfarniadau a'r rhagdybiaethau allweddol hefyd yn cael eu hadolygu'n gyson, a bydd unrhyw dystiolaeth newydd a allai helpu i lywio'r amcangyfrifon yn cael ei hystyried a'i hadlewyrchu mewn diweddariadau yn y dyfodol.